Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (PONT NEUADD I LANGADFAN, POWYS) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig oherwydd bod gwaith yn cael ei wneud ar Gefnffordd yr A458 rhwng Pont Neuadd a Llangadfan yn Sir Powys, neu gerllaw iddi.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a ganlyn yn weithredol yn ôl y gofyn o 09:00 o'r gloch hyd 18:00 o'r gloch o 12 Ionawr 2015 hyd 26 Ionawr 2015 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:-

i) gwahardd dros dro bob cerbyd sy'n 2.5 metr o led neu'n fwy rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

   Y llwybr arall ar gyfer pob cerbyd llydan sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar yr A458 tua'r gorllewin i Fallwyd, yr A470 tua'r de i Lantwymyn a thua'r de-ddwyrain i Gaersŵs, yr A489 tua'r dwyrain i'r Drenewydd, yr A493 tua'r gogledd-ddwyrain i'r Trallwng er mwyn ailymuno â'r A458. I'r gwrthwyneb ar gyfer pob cerbyd llydan sy'n teithio tua'r gorllewin.

   Y llwybr arall ar gyfer pob cerbyd llydan sy'n teithio tua'r dwyrain y mae'r cyfyngiad uchder parhaol o 14' 6" wrth bont rheilffordd Pontdolgoch yn effeithio arno fydd mynd ar yr A489/A487 o Lantwymyn tua'r gorllewin i Aberystwyth, yr A44 tua'r dwyrain i Langurig a'r A470 tua'r gogledd-ddwyrain i Gaersŵs, a pharhau ar y prif lwybr arall a nodir uchod. I'r gwrthwyneb ar gyfer pob cerbyd llydan sy'n teithio tua'r gorllewin y mae'r cyfyngiad uchder yn effeithio arno.

ii) gosod terfyn cyflymder dros dro o naill ai 40 mya neu 30 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir uchod;

iii) gosod terfyn cyflymder dros dro o 10 mya pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir uchod; a

iv) gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag goddiweddyd pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir uchod.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

YR ATODLEN

i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4385, i'r gorllewin o Bont Neuadd, tua'r gorllewin i ganolbwynt ei chyffordd â'r C2041 ger Four Crosses.

ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 516 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â'r U2093 tua'r gorllewin i ganolbwynt ei chyffordd â'r C2111 wrth Westy'r Cann Office, ger Llangadfan.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A458 TRUNK ROAD (NEUADD BRIDGE TO LLANGADFAN, POWYS) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS, propose, in not less than seven days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 because works are being executed on or near the A458 Trunk Road between Neuadd Bridge and Llangadfan in the County of Powys.

It is expected that the following prohibitions and restrictions will operate as required from 09:00 hours until 18:00 hours from 12 January 2015 until 26 January 2015 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to:-

i) temporarily prohibit all vehicles of or greater than 2.5 metres wide from proceeding in the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice;

   The alternative route for all eastbound wide vehicles will be via the A458 west to Mallwyd, the A470 south to Cemmaes Road and south-east to Caersws, the A489 east to Newtown, the A483 north-east to Welshpool to re-join the A458. Vice versa for all westbound wide vehicles.

   The alternative for all eastbound wide vehicles affected by a permanent 14' 6" height restriction at Pontdolgoch railway bridge will be via the A489/A487 from Cemmaes Road west to Aberystwyth, the A44 east to Llangurig and the A470 north-east to Caersws and continue on the above main alternative route. Vice versa for all westbound wide vehicles affected by the height restriction.

ii) impose temporarily either a 40 mph or 30 mph speed limit in the length of the trunk road specified above;

iii) impose temporarily a 10 mph speed limit during convoy working in the length of the trunk road specified above and;

iv) temporarily prohibit all vehicles, with exemption for emergency and works vehicles, from overtaking during convoy working in the length of the trunk road specified above.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Orders Branch, Transport, Welsh Government

SCHEDULE

i) That length of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the B4385, west of Neuadd Bridge, westwards to the centre-point of its junction with the C2041 near Four Crosses.

ii) That length of the trunk road that extends from a point 516 metres east of its junction with the U2093 westwards to the centre-point of its junction with the C2111 at the Cann Office Hotel, near Llangadfan.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE